2014 - 2024 10

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

# Adroddiad Blynyddol 2024/25

## Dathlu 10 Mlynedd o'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol

# Cynnwys


03 Rhagair y cyfarwyddwr
04 Gwybodaeth amdanom ni
06 Ein taith
08 Beth sydd wedi newid dros y 10 mlynedd?
14 Creu sylfaen gadarn
22 Trosolwg o 2024/25
23 Uchafbwyntiau'r llynedd
28 Dathlu arfer da
30 Diweddariad cyllid
30 Sylwadau terfynol
31 Degawd mewn lluniau

# Rhagair y cyfarwyddwr

**Rwy'n falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC) Cymru ar gyfer 2024/25 i chi. Eleni, fe wnaethom ddathlu 10 mlynedd o GMC, felly rydym wedi cynhyrchu adroddiad arbennig 'Pen-blwydd yn 10 oed' i ddathlu hyn.**

Rwy'n falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol GMC ar gyfer 2024/25 i chi. Eleni, fe wnaethom ddathlu 10 mlynedd o GMC, felly rydym wedi cynhyrchu adroddiad arbennig 'Pen-blwydd yn 10 oed' i ddathlu hyn.

Ers ei sefydlu, mae GMC wedi arwain taith drawsnewidiol, un sydd wedi ailddiffinio sut mae gwasanaethau mabwysiadu yn cael eu darparu ar draws y genedl. Trwy ddull cydweithredol, amlasiantaethol, mae'r gwasanaeth wedi adeiladu system fabwysiadu fodern a chynhwysol sy'n rhoi anghenion plant a theuluoedd yn y rheng flaen.

Mae'r garreg filltir hon nid yn unig yn nodi 10 mlynedd o gynnydd ond hefyd yn ddathliad o'r miloedd o fywydau sydd wedi'u newid. Rydym yn estyn ein diolchgarwch mwyaf i'r mabwysiadwyr sydd wedi agor eu calonnau a'u cartrefi, y gweithwyr proffesiynol ymroddedig sy'n gweithio'n ddiflino, a'r cymunedau sydd wedi cefnogi ein gweledigaeth i ddarparu gwasanaethau mabwysiadu gwell i blant.

Wrth i ni fyfyrio ar y cyflawniadau, rydym hefyd yn cydnabod yr heriau parhaus. Mae camsyniadau ynghylch pwy all fabwysiadu yn parhau; mae rhai plant, yn enwedig grwpiau o frodyr/chwiorydd, y rhai ag anghenion cymhleth, a phlant hŷn, yn parhau i aros yn hirach am eu teuluoedd mabwysiadol. Mae yna hefyd newidiadau i'r dirwedd polisi a gwasanaeth yr ydym yn dal i fod eisiau eu gwneud.

Mae'r GMC yn parhau i fod wedi ymrwymo i chwalu rhwystrau, hyrwyddo cynhwysiant, a sicrhau y gall pob plentyn ffynnu. Gyda chefnogaeth, arloesedd a thosturi parhaus, edrychwn ymlaen at y bennod nesaf yn y gwaith hanfodol hwn: adeiladu dyfodol lle mae pob plentyn yn dod o hyd i'r teulu y mae'n ei haeddu.



**Suzanne Griffiths**
Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyfer Cymru

2014 - 2024
10

# Gwybodaeth amdanom ni

**Crëwyd y GMC er mwyn gwella gwasanaethau i bob un yng Nghymru y mae mabwysiadu yn effeithio arno. Cafodd ei lansio ym mis Tachwedd 2014 fel ffordd unigryw ac arloesol o ddarparu gwasanaethau mabwysiadu.**

Daeth â gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol Cymru at ei gilydd i mewn i strwythur â thair haenen, sy'n cynnwys partneriaethau ar bob lefel gydag asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol yng Nghymru, iechyd, gwasanaethau addysg ac eraill.

Mae pob un o 22 awdurdod lleol Cymru yn parhau i ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, ac ar yr un pryd yn adnabod y plant hynny y mae cynllun mabwysiadu'n addas ar eu cyfer ac yn gweithio gyda nhw.



Am ragor o wybodaeth am fabwysiadu yng Nghymru, ewch i wefan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol **adoptcymru.com**

Yn rhanbarthol, mae awdurdodau lleol yn cydweithio mewn pum cydweithfa ranbarthol i ddarparu dewis o wasanaethau mabwysiadu. Mae gan bob cydweithfa ranbarthol gysylltiadau â'r asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol, iechyd ac addysg ac mae'n darparu:

- Swyddogaeth asiantaeth fabwysiadu ar gyfer plant
- Gwasanaeth recriwtio mabwysiadwyr a'u hasesu
- Cwnsela a chymorth i rieni biolegol
- Cyngor a chymorth i oedolion sydd wedi cael eu mabwysiadu
- Gwasanaethau cymorth mabwysiadu. Mewn ambell ranbarth, caiff y swyddogaeth hon ei rhannu gydag awdurdodau lleol.

Yn genedlaethol, mae cyfarwyddwr y GMC, a thîm canolog bach, yn arwain, yn cydlynu, yn rhoi cymorth strategol ac yn galluogi ac ar yr un pryd yn comisiynu rhai gwasanaethau ar gyfer Cymru gyfan.

Talfyriadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn:

| | |
|---|---|
| **GMCGC** | Gwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| **GMGC** | Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru |
| **GMDDdC** | Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru |
| **GMFCCh** | Gwasanaeth Mabwysiadu y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd |
| **GMBG** | Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin |
| **Dewi Sant** | Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant |
| **B's** | Barnardo's |
| **AUK** | Adoption UK Cymru |
| **AFKA** | AFKA Cymru |
| **ALlau** | Awdurdodau Lleol |

# Ein taith


## Mae GMC wedi ail-lunio'r dirwedd mabwysiadu yn sylweddol ers ei ffurfio yn 2014. Yn ystod y cyfnod hwn, mae wedi lleoli dros 3,100 o blant gyda 2,500 o deuluoedd ac wedi darparu cefnogaeth barhaus i filoedd o unigolion yr effeithiwyd arnynt gan fabwysiadu.

Mae mabwysiadu yn cyffwrdd â chyfran sylweddol o boblogaeth Cymru. Er bod unigolion wedi'u mabwysiadu yn cyfrif am tua 4%, wrth gynnwys teuluoedd biolegol a mabwysiadwyr, mae'r ffigur yn codi i oddeutu 18%. Ar hyn o bryd mae tua 4,200 o blant wedi'u mabwysiadu o dan 18 oed yng Nghymru, gyda thua 3,300 ohonynt o oedran ysgol, ac oddeutu 7,500 o oedolion wedi'u mabwysiadu.

Bob blwyddyn mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thua 1,000 o blant lle mae cynllun mabwysiadu yn cael ei ystyried neu'n cael ei gytuno. Yn ogystal, mae tua 1,650 o drefniadau ar gyfer cymorth mabwysiadu ar waith i blant sydd newydd gael eu lleoli neu eu mabwysiadu, gyda nifer fach yn aros i gael eu hasesu. Ar hyn o bryd mae cyswllt blwch llythyrau (a elwir hefyd yn gyswllt anuniongyrchol) yn cael ei gefnogi ar gyfer ychydig dros 4,000 o blant, ochr yn ochr â threfniadau cyswllt mwy uniongyrchol, sy'n cael eu cefnogi ar gyfer mwy o blant dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae tua 310[1] o blant Cymru yn gadael y gwasanaeth gofal drwy fabwysiadu bob blwyddyn. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae hyn yn gyfartaledd o 14% o'r holl blant sy'n gadael gofal bob blwyddyn.

Nid yn unig y mae'r GMC wedi gwella ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau mabwysiadu ond mae hefyd wedi codi ymwybyddiaeth y cyhoedd, wedi moderneiddio gwasanaethau, ac wedi meithrin partneriaethau cryf ar draws ystod o sectorau.




[1] *Cyfartaledd Gorchmynion Mabwysiadu a roddwyd bob blwyddyn ers 2014/15 (317) wedi'u talgrynnu i lawr i'r cant agosaf*










## Ers ei sefydlu, mae'r GMC wedi:

- **Gwella Canlyniadau Lleoli**, gan leihau nifer y plant sy'n aros i gael eu mabwysiadu, mwy o leoliadau brodyr/chwiorydd, mwy o amrywiaeth ac amserlenni gwell ar gyfer lleoliadau plant a chymeradwyaethau mabwysiadwyr
- **Gwella Cymorth mabwysiadu** drwy ein Fframwaith Cymorth Mabwysiadu a'r Ymrwymiad Cymorth Mabwysiadu, sydd wedi arwain at ystod fwy cyson o wasanaethau ar gael ar draws Cymru, gan gynnwys mwy o gyswllt uniongyrchol
- **Codi ymwybyddiaeth o fabwysiadu** drwy sawl ymgyrch arobryn, gan gynnwys Gweld y Plentyn Cyfan, Bod yn Rhiant…, a Dewis y Teulu, a **dylanwadu ar bolisi ac arfer** yng Nghymru a thu hwnt
- **Cynyddu cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth** o fewn pob gwasanaeth, wrth weithio gyda phartneriaid yn y trydydd sector i greu mecanweithiau ymgysylltu cenedlaethol, Lleisiau Mabwysiadwyr, Y Sgwrs Fawr ar Fabwysiadu a Chysylltu Lleisiau, i sicrhau y gall mabwysiadwyr a phobl ifanc wedi'u mabwysiadu ddylanwadu ar ddatblygiad gwasanaethau
- **Digideiddio gwasanaethau** fel y Gofrestr Mabwysiadu Cymru (ARW) a gwefan y GMC, sy'n parhau i esblygu fel adnodd cynhwysfawr i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol
- **Sicrhau cyllid** drwy grantiau Llywodraeth Cymru a chefnogi partneriaid yn y trydydd sector i godi arian i elusennau

Rydym wedi gwneud hyn drwy weithredu model cydweithredol unigryw sy'n cynnwys llywodraeth leol, y trydydd sector a phartneriaid eraill a chanolbwyntio ar:

- **Ymgysylltu â gwasanaethau, staff a defnyddwyr gwasanaethau** ar bob lefel o fewn sefydliadau sy'n darparu neu'n cefnogi gwasanaethau mabwysiadu, gan gynnwys drwy drefniadau llywodraethu cenedlaethol a rhanbarthol a mesur perfformiad cadarn.
- **Cefnogi a datblygu'r gweithlu a darpar fabwysiadwyr** drwy annog a darparu ystod o hyfforddiant yn uniongyrchol, gan gynnwys technegau therapiwtig, Gwaith Taith Bywyd, a chefnogaeth drwy ein cysylltiadau agos â Gofal Cymdeithasol Cymru. Arweiniodd cydweithrediadau ag AFKA ac Adoption UK Cymru at greu modiwlau hyfforddi ôl-gymeradwyo ar gyfer mabwysiadwyr, wedi'u teilwra i arddulliau dysgu amrywiol. Mae'r rhain wedi cael eu datblygu ymhellach gan rai gwasanaethau. Yn 2023, lansiodd GMC y Pecyn Cymorth i Gyflogwyr i helpu busnesau i gefnogi gweithwyr sy'n mabwysiadu, gydag Admiral, Llywodraeth Cymru a'r Principality fel partneriaid allweddol.
- Rydym wedi cefnogi rhai **mentrau penodol ar gyfer staff iechyd ac addysg** drwy ein gwasanaethau hyfforddi a datblygu, gan gynnwys cael mynediad at gyllid ychwanegol i ehangu hyn. Yn 2016, cefnogodd y GMC ddatblygiad *Getting it Right for Every Child*, canllaw i ysgolion gan AUK, ac yna fersiwn i rieni, y ddau yn seiliedig ar ymgynghoriadau â mabwysiadwyr, plant ac athrawon. Mae'r rhain yn parhau i gael eu defnyddio'n dda ac maent yn cael eu diweddaru ar hyn o bryd. Yn 2018, ymunodd y GMC â chydweithwyr Iechyd a Practice Solutions i gyhoeddi *Care about Adoption – A Guide for Healthcare Professionals*, a lansiwyd yn 2019/20.




*Uchod: Mark Drakeford, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, yn lansiad swyddogol y GMC*

- **Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth** drwy ymuno ag ymgyrch Dim Hiliaeth Cymru yn 2020 ac yn 2022. Pan amlygodd prosiect ymchwil gan Brifysgol Caerdydd anghydraddoldebau mewn amserlenni mabwysiadu ar gyfer plant o hil leiafrifiedig, ysgogwyd y GMC i ddatblygu ymatebion polisi.
- **Hwyluso ymchwil a chydweithio ledled y DU** drwy ymgysylltu â chyrff ymchwil a chomisiynu ein hymchwil ein hunain. Mae GMC wedi cefnogi Astudiaeth Carfan Mabwysiadu Cymru dan arweiniad Ysgol Seicoleg Prifysgol Caerdydd, yn ogystal â gweithio gyda CASCADE ar nifer o fentrau, gan gynnwys Cyfres Gynadleddau Mabwysiadu 2023. Roeddem hefyd yn rhan o'r Grŵp Ymgynghorol ar gyfer ymchwil Llesiant mewn Ysgolion a Cholegau (WiSC), gan ganolbwyntio ar blant sydd wedi bod mewn gofal. Mae ein cysylltiadau â'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus wedi cefnogi datblygiad ein trefniadau llywodraethu yn ogystal â'n cynnig cymorth mabwysiadu, gan gynnwys astudiaeth ymchwil gyhoeddedig. Rydym wedi datblygu cysylltiadau ag Adopt England, llywodraethau'r Alban a Lloegr a Chonsortiwm Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol (CVAA). Chwaraeodd GMC ran hefyd yn Is-grŵp Mabwysiadu'r Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus, a gynhyrchodd ei adroddiad yn 2024
- **Datblygu a chynnal cysylltiadau â sefydliadau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc**, fel Voices from Care Cymru, Plant yng Nghymru a Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru. Yn 2019, fe wnaethon ni bartneru â Chanolfan Gyfreithiol y Plant i gynhyrchu taflen ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal ynglŷn â chyswllt â'u brodyr/chwiorydd wedi'u mabwysiadu, o'r enw Contact a beth mae'n ei olygu i chi.
- **Hyrwyddo cysondeb** trwy ddull cydweithredol o ddatblygu fframweithiau a chanllawiau arfer da ynghyd â Pholisïau a Gweithdrefnau Mabwysiadu Cymru Gyfan

# Beth sydd wedi newid dros y 10 mlynedd?

Mae blaenoriaethau presennol y GMC yn adlewyrchu'r themâu a'r blaenoriaethau sydd wedi bod yn sail i'r strategaeth. Maent yn ffordd ddefnyddiol o ddangos y newid sydd wedi digwydd.



# Y teuluoedd gorau i'n plant

Ers 2014, mae'r GMC wedi gweithio i drawsnewid mabwysiadu yng Nghymru, gan sicrhau bod plant â chynlluniau mabwysiadu yn dod o hyd i deuluoedd diogel a chariadus heb oedi. Ar ddechrau ein stori, arweiniodd adolygiad cenedlaethol at strategaeth recriwtio unedig ac integreiddio'r hyn sydd bellach yn Gofrestr Mabwysiadu Cymru (ARW) ddwyieithog newydd, i'r gwasanaeth. Galluogodd hyn ni i symleiddio'r broses baru trwy'r platfform Link Maker. Cyflwynodd hefyd fynediad rheoledig i fabwysiadwyr a gwahanol ffyrdd o gefnogi'r broses baru.

Yn 2015, cyflwynodd y GMC y Canllaw Arfer Gorau ar gyfer Dod o Hyd i Deuluoedd, gan hyrwyddo cynllunio cynnar, wedi'i deilwra ar gyfer pob plentyn. Rhoddodd offer digidol a digwyddiadau fel Diwrnodau Gweithgareddau Mabwysiadu a Diwrnodau Cyfnewid gyfleoedd ystyrlon i ddarpar fabwysiadwyr gysylltu â phlant, yn enwedig y rhai a oedd wedi aros hiraf.

Erbyn 2017, lansiodd y GMC y Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd (ATS), sef cydweithrediad arloesol rhwng asiantaethau gwirfoddol a statudol. Canolbwyntiodd yr ATS ar y plant 'anoddaf i'w lleoli' – plant hŷn, grwpiau o frodyr/chwiorydd, a'r rhai ag anghenion cymhleth – gan gynnig nid yn unig baru ond cefnogaeth therapiwtig a seicolegol i deuluoedd. Ers ei lansio, mae 32 o blant wedi cael eu paru â 21 o deuluoedd, gan wella eu cyfleoedd bywyd yn sylweddol ac atal trefniadau gofal tymor hir.

Trwy arloesedd, cydweithio a thosturi, mae'r GMC yn parhau i sicrhau bod pob plentyn nid yn unig yn dod o hyd i gartref, ond y teulu gorau posibl.

**Ymgyrchoedd a newidiodd feddyliau:** mae marchnata wedi chwarae rhan hanfodol wrth ail-lunio canfyddiadau'r cyhoedd ac mae wedi dod yn fwyfwy soffistigedig wrth i'r blynyddoedd fynd heibio.

Defnyddiodd yr ymgyrch Gweld y Plentyn Cyfan yn 2016 a'r ymgyrch Dod yn Rhiant yn 2019 straeon go iawn a llwyfannau amlgyfrwng i amlygu llawenydd a realiti mabwysiadu. Yn 2021, canolbwyntiodd yr ymgyrch arobryn Dewis Teulu ar annog mabwysiadu plant hŷn, bechgyn a grwpiau o frodyr/chwiorydd. Cyrhaeddodd dros filiwn o wylwyr ac arweiniodd at gynnydd amlwg mewn ymholiadau. Ail-lansiwyd yr ymgyrch yn 2023, gan ddefnyddio llwyfannau fel TikTok a Spotify i wneud y mwyaf o'r cyrhaeddiad.

Yn 2020, lansiodd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Bodlediad 'Dweud y Gwir yn Blaen', Podlediad dwyieithog yn cynnwys pobl ledled Cymru sydd wedi mabwysiadu. Fe'i cynhyrchwyd gan Cowshed, Cwmni Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata'r Gwasanaeth, ac fe enillodd Wobr Aur yng ngwobrau Pride




Cymru Sefydliad Siartredig Cysylltiadau Cyhoeddus yn 2021. Twriodd yr ail gyfres yn ddyfnach i rai o'r pynciau mwy anodd gyda mabwysiadu fel anghenion plant hŷn, brodyr a chwiorydd a'r rheiny ag anghenion cymhleth. Cafodd hon Wobr Arian yng Ngwobrau Podlediadau Prydain yn 2023. Casglwyd y wobr gan aelod o Leisiau CONNECT (Cyngor Ieuenctid Mabwysiadu), a welir yma gyda'r cyflwynydd teledu, Sam Thompson.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r broses asesu ar gyfer mabwysiadwyr wedi dod yn fwy syml, gyda chyflwyniad proses asesu dau gam, gan gynnal safonau llym.

Cyflwynodd blynyddoedd pandemig COVID-19 heriau sylweddol, ond addasodd gwasanaethau'n gyflym. Sicrhaodd asesiadau rhithwir, ymgynghoriadau Meddyg Teulu o bell, ac adnoddau digidol barhad.

Yn y blynyddoedd dilynol, cyflwynodd y Canllaw Arfer Da ar gyfer Pontio a Chymorth Cynnar ddulliau strwythuredig fel Dyddiau Deall y Plentyn ac Amserlenni Meithrin Trawma, gan sicrhau bod teuluoedd wedi'u paratoi'n dda a'u cefnogi o'r cychwyn cyntaf trwy fodelau sy'n debyg ond yn llai dwys na'r Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd. Erbyn 2023, roedd yr arferion hyn yn cael eu gweithredu ar draws pob rhanbarth yng Nghymru.




Mae cyflwyno proses Sefydlogrwydd Cynnar Cymru (WEP) bellach yn cynnig cyfle i blant symud i'w cartrefi parhaol yn gyflymach, gan leihau nifer y cyfnodau pontio a hyrwyddo sefydlogrwydd mewn lleoliadau. Mae'r gwasanaeth yn tyfu, gyda dwsinau o gartrefi eisoes wedi cael eu hyfforddi a sawl lleoliad wedi'u gwneud yn llwyddiannus.

## Ein taith cymorth mabwysiadu

Yn 2014, roedd cymorth mabwysiadu yng Nghymru yn dameidiog ac yn brin o adnoddau. Gan gydnabod hyn, dechreuodd y GMC ymdrech genedlaethol i adeiladu system gydlynol ac ymatebol. Gyda chanllawiau gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus, datblygwyd y Fframwaith Cymorth Mabwysiadu, gan gynnig gweledigaeth glir ar gyfer y cymorth y dylai teuluoedd sy'n mabwysiadu a'u plant ei gael drwy gydol eu taith.

Erbyn 2015, roedd y fframwaith wedi'i strwythuro'n dair haen – cyffredinol, wedi'i dargedu, ac arbenigol – gan ganiatáu cymorth wedi'i deilwra. Cafodd mabwysiadwyr newydd fynediad at aelodaeth Adoption UK a hyfforddiant rhianta. Yn 2016, mabwysiadwyd y fframwaith yn ffurfiol, a lansiwyd y Canllawiau Mabwysiadu i ddarparu gwybodaeth glir a hygyrch.


Yn 2017, dadleuodd y GMC dros ddiwygiadau cyfreithiol i ymgorffori cynlluniau cymorth mewn cynllunio gofal. Cynigiodd prosiect 1000 Diwrnod Cyntaf Adoption UK gymorth cynnar hanfodol, gan gynnwys llinellau cymorth, rhwydweithiau cyfoedion, a hyfforddiant. Rhwng 2018 a 2019, datblygwyd modiwlau hyfforddi a gwasanaethau therapiwtig fel TESSA (PATHway bellach), gyda chefnogaeth buddsoddiad Llywodraeth Cymru.

Cadarnhaodd gwerthusiad annibynnol yn 2020 gynnydd, gyda theuluoedd yn nodi mynediad a hyder gwell. Yn 2021, cyhoeddodd y GMC ei Ymrwymiad Cymorth Mabwysiadu, gan hyrwyddo cymorth cydweithredol yn y gymuned. Cadarnhaodd y lansiad yn 2022 yr addewid hwn.

Erbyn 2023, canolbwyntiodd y GMC ar fireinio systemau trwy ddata a metrigau perfformiad, gan sicrhau bod cynllunio ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn ymatebol i anghenion sy'n esblygu.

Mae Ymrwymiad Cymorth Mabwysiadu'r GMC bellach yn gwasanaethu fel model o gymorth cynhwysol, gwybodus a hygyrch i bawb yr effeithir arnynt gan fabwysiadu. Mae hyn yn cael ei ategu gan Ganllaw Arfer Da ar gyfer Cymorth Mabwysiadu.

Gyda sylfaen gref bellach yn ei lle, mae Cymru mewn sefyllfa dda i barhau i arwain y ffordd o ran cymorth mabwysiadu ar draws y DU.







## Taith Bywyd

Yn 2017, cyflwynwyd Fframwaith newydd ar gyfer Gwaith Taith Bywyd (LJW). Nododd y fframwaith hwn, a gynhyrchwyd ar y cyd â phlant, pobl ifanc, a mabwysiadwyr, newid mewn arfer, gyda'r nod o wella argaeledd Gwaith Taith Bywyd i deuluoedd, a chaniatáu i deuluoedd sy'n mabwysiadu gymryd mwy o berchnogaeth a rheolaeth dros stori eu plentyn.

Darparodd cyflwyno pecyn cymorth cynhwysfawr, a Chanllaw Arfer Da, ganllawiau ac adnoddau strwythuredig, y cyfan wedi'i wneud yn hygyrch trwy wefan y GMC ac wedi'i gefnogi gan AFKA, a ddarparodd hyfforddiant a chefnogaeth barhaus i staff ar draws Cymru.

Lansiwyd y Fframwaith yn ffurfiol ym mis Ionawr 2019 mewn cynhadledd a gynhaliwyd yng Nghymru yn fuan ar ôl i fuddsoddiad Llywodraeth Cymru alluogi creu rôl cydlynydd hyrwyddwr ym mhob un o bum rhanbarth y GMC.

Mae datblygu a gweithredu Gwaith Taith Bywyd mewn gwasanaethau mabwysiadu wedi gweld cynnydd sylweddol ers 2014. Cyn y GMC, roedd gan lai na 25% o blant ddeunyddiau taith bywyd wedi'u paratoi cyn eu hail adolygiad mabwysiadu. Erbyn diwedd 2024/25, cododd cyfran y plant â deunyddiau taith bywyd yn eu lle erbyn eu hail adolygiad mabwysiadu i 65%. Mae ffocws mwy diweddar ar sicrhau bod elfennau penodol o'r LJW ar gael yn gynharach, erbyn amser y panel paru, hefyd wedi gwella, gyda 75% neu fwy ar gael dros y pum mlynedd diwethaf.

## Cyswllt

Yn hanesyddol, ystyriwyd mabwysiadu fel toriad llwyr oddi wrth orffennol plentyn, gyda hunaniaeth yn cael ei hailddiffinio o'r pwynt mabwysiadu. Dechreuodd hyn newid gyda Deddf Mabwysiadu 1976, a ganiataodd i oedolion a fabwysiadwyd gael mynediad at eu tystysgrifau geni gwreiddiol. Nododd Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 newid pellach drwy bwysleisio hawliau plant a mynnu ystyriaeth o gyswllt â theuluoedd geni, gan gynnwys brodyr/chwiorydd, ochr yn ochr ag amrywiol ddyfarniadau llys a osododd yr amodau ar gyfer hyn yn ymarferol.

Er gwaethaf y datblygiadau deddfwriaethol hyn, roedd trefniadau cyswllt yn aml wedi parhau i fod yn gyfyngedig, yn bennaf yn anuniongyrchol drwy gyswllt blwch llythyrau, a heb ddigon o adnoddau. Dangosodd ymchwil a gyhoeddwyd yn 2020[2] fod Cymru yn sylweddol wahanol i wledydd eraill y DU yn ei dibyniaeth ar drefniadau blwch llythyrau wrth fabwysiadu.

Mae'r GMC wedi cymryd rhan flaenllaw yn y broses o foderneiddio arferion cyswllt. Yn 2018, darparodd y GMC bapur materion ar gyfer digwyddiad cwmpasu gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill, tra comisiynwyd Adoption UK Cymru ac After Adoption cynt i gynnal ymgynghoriad â mabwysiadwyr a phlant a phobl ifanc wedi'u mabwysiadu.

[2] *Post–adoption contact and adoptive parents' receptiveness to direct contact in the four nations of the UK ' Jones, C., MacDonald, M., & Brooks, R. (2020, Jul 17). University of Strathclyde.*

Nododd datblygiad dilynol Canllaw Arfer Da ar gyfer Cyswllt gydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd cyswllt uniongyrchol ac anuniongyrchol, gyda phwyslais ar gyfarfodydd cychwynnol ac adolygiadau rheolaidd o drefniadau cyswllt. Mae egwyddorion arweiniol y ddogfen yn eiriol dros ddull sy'n canolbwyntio ar y plentyn, lle dylid ystyried cyswllt yn fuddiol ac er budd gorau'r plentyn, gyda phenderfyniadau wedi'u teilwra i anghenion ac amgylchiadau unigryw pob plentyn. Mae'n eiriol dros drefniadau hyblyg, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, a chynnwys cefnogaeth gynnar ac amserol i bob parti dan sylw.


Erbyn 2022, roedd gwelliannau i drefniadau cyswllt wedi dod yn flaenoriaeth strategol i'r GMC. Dechreuodd pob rhanbarth ac Asiantaeth Mabwysiadu Gwirfoddol (VAAs) yng Nghymru weithio i gynyddu cyfarfodydd rhwng rhieni geni a mabwysiadwyr. Mae'r rhain yn digwydd ar hyn o bryd ar gyfer o leiaf draean o'r holl leoliadau.

Yn 2023, cymerwyd camau pellach i wella arfer, gan gynnwys ariannu hyfforddiant ar y canllawiau Gyda'n Gilydd neu Ar Wahân ar gyfer staff awdurdodau lleol, gyda'r nod o wella dealltwriaeth o anghenion brodyr/chwiorydd wedi'u mabwysiadu.

Cyhoeddwyd Pecyn Cymorth Cyswllt ochr yn ochr â hyn, sy'n ategu'r Canllaw Arfer Da trwy ddarparu dulliau ymarferol gyda'r nod o gefnogi gweithwyr proffesiynol. Cafodd hyn ei gyflwyno ar draws Cymru. Mae nifer y trefniadau cyswllt blwch llythyrau anuniongyrchol sydd ar waith wedi bod tua 3,700 y flwyddyn ar gyfartaledd ers i'r GMC ddechrau casglu'r data ac roedd dros 4,000 ar ddiwedd 2024/25.



## Gweithio gyda rhieni geni




Roedd newid sut mae gwasanaethau'n ymgysylltu â rhieni geni ac yn eu cefnogi yn rhan allweddol o'r newidiadau i Gwaith Taith Bywyd a Connect a amlinellwyd uchod. Roedd y ddau yn gofyn am ddull cefnogol ac ymatebol sy'n gweithio'n sensitif ac mewn ffordd unigol gyda rhieni geni, gan ddiwallu eu hanghenion yn ogystal ag anghenion y plentyn.

Cysylltir â chyfran uchel o rieni geni, yn gyffredinol y rhai sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau, yn gyson a chynigir gwasanaeth iddynt. Dros amser, rydym wedi gweld 20–30% o'r rhieni geni hyn yn manteisio ar y cynnig o wasanaeth yn fuan ar ôl iddo gael ei gynnig, er bod nifer fwy yn tueddu i wneud hynny yn ddiweddarach. Ar gyfartaledd, cefnogir mwy na 300 o rieni geni mewn unrhyw flwyddyn benodol, ac ar ei uchaf, cyrhaeddodd hyn ychydig o dan 500.

Roedd gan rai gwasanaethau wasanaethau unigol a grŵp sy'n bodoli eisoes yn cynnig cymorth, ond fe wnaeth buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn 2019 alluogi pob gwasanaeth i ganolbwyntio ar wella'r agwedd hon ar gymorth. Daeth y Canllaw Arfer Da ar gyfer Gweithio gyda Rhieni Biolegol â'r arferion da a'r ymchwil presennol ynghyd i ddarparu fframwaith ar gyfer gwasanaethau a chymorth gwell.

## Agor y drws i'r gorffennol: mynediad at gofnodion mabwysiadu

I lawer o oedolion wedi'u mabwysiadu, rhieni geni, a pherthnasau, mae cael mynediad at gofnodion mabwysiadu yn fwy na hawl gyfreithiol – mae'n daith bersonol iawn i ddeall eu hunaniaeth a'u hanes. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth hanfodol hwn wedi cael ei dan-flaenoriaethu, heb ddigon o adnoddau, ac yn aml mae'n rhwystredig o araf.

Ar hyn o bryd dim ond i unigolion wedi'u mabwysiadu dros 18 oed, rhieni geni, brodyr/chwiorydd, a pherthnasau penodol eraill y mae mynediad ar gael. Mae'r broses ymhell o fod yn syml, gyda rheolau gwahanol ar gyfer pobl wedi'u mabwysiadu yn dibynnu a ddigwyddodd y mabwysiadu cyn neu ar ôl Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Mae oedi wrth adfer cofnodion wedi'u harchifo yn gyffredin, gydag achlysuron lle nad ydynt ar gael o gwbl. Mae yna hefyd brinder gweithwyr cymdeithasol sydd â'r sgiliau arbenigol sydd eu hangen i gefnogi pobl trwy'r broses sensitif hon, ac ychydig iawn o wasanaethau amgen sydd ar gael.

Mae'r GMC wedi gwneud gwella mynediad at gofnodion yn flaenoriaeth allweddol yn ei gynllun strategol diweddaraf. Mae hyn yn cynnwys:



- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd emosiynol ac ymarferol cofnodion geni
- Cydweithio â phrosiect IASA[3] Lloegr, sy'n galluogi datblygu canllawiau newydd wedi'u teilwra ar gyfer Cymru
- Hyfforddi mwy o staff a rhannu arferion gorau i adeiladu grŵp staff cryfach a mwy gwybodus

Mae'r GMC hefyd yn paratoi ar gyfer y nifer cynyddol o oedolion ifanc a fabwysiadwyd ar ôl 2002, gyda chefnogaeth drwy'r trefniadau ôl-gychwyn, sy'n aml yn wynebu anghenion emosiynol mwy cymhleth ac angen cefnogaeth fwy dwys.

Nid dim ond y rhai a fabwysiadwyd sy'n chwilio am atebion – gall rhieni geni, brodyr/chwiorydd geni sy'n oedolion a rhai perthnasau eraill hefyd gael mynediad at gefnogaeth i gysylltu â'u perthynas wedi'u mabwysiadu. Mae nifer y ceisiadau gan oedolion wedi'u mabwysiadu sy'n dymuno cael mynediad at eu cofnodion geni neu gael cefnogaeth i gysylltu â'u perthnasau geni wedi gostwng, fel y mae nifer y rhieni geni, neu berthnasau eraill, yn gofyn am gefnogaeth. Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer y brodyr/chwiorydd geni sy'n oedolion sy'n ceisio cefnogaeth i olrhain neu gysylltu â'u brodyr/chwiorydd. Bydd rhywfaint o'r gostyngiad hwn yn gysylltiedig â'r anallu i gael mynediad at wasanaeth, ond yn gynyddol, mae'r rôl y mae cyfryngau cymdeithasol yn ei chwarae a datblygiadau mewn profion DNA yn chwarae rhan.

[3] *Improving Adoption Services for Adults: Maintaining Relationships for adopted people* | *Adoption England*

## Mabwysiadu: taith gydol oes, nid digwyddiad untro

Mae'r GMC wedi dod yn eiriolwr dros gydnabod mabwysiadu fel profiad gydol oes – un sy'n llunio bywydau'r rhai sydd wedi'u mabwysiadu, teuluoedd geni, a rhieni sy'n mabwysiadu ymhell y tu hwnt i'r broses gyfreithiol.

Ers 2016, mae'r GMC wedi gweithio i ymgorffori'r ddealltwriaeth hon mewn cyfraith, polisi, ac arfer bob dydd. Mae'r cyfle i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru wedi dod trwy'r Grŵp Cynghori Gweinidogol blaenorol, y Grŵp Cyflawni Trawsnewid presennol, y Grŵp Gweithredu Rhianta Corfforaethol a deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae ein dylanwad hefyd yn ymestyn y tu hwnt i Gymru.

Daeth carreg filltir bwysig gyda Deddf Mabwysiadu a Gwaith Cymdeithasol 2017, a oedd yn cynnwys nifer fach o gymalau a oedd yn berthnasol i Gymru. Am y tro cyntaf, roedd yn ofynnol i lysoedd ystyried anghenion gydol oes plant wedi'u mabwysiadu a thrin rhieni sy'n mabwysiadu fel ffigurau canolog mewn gwrandawiadau dadleuol. Roedd hwn yn newid nodedig – gan gydnabod bod diogelwch emosiynol ac ymlyniad â darpar rieni sy'n mabwysiadu yn bwysig ac yn haeddu cydraddoldeb mewn achosion llys.

Mae'r GMC wedi creu mannau diogel ar gyfer sgyrsiau gonest, fel digwyddiadau Y Sgwrs Fawr ar Fabwysiadu, lle gall pobl rannu realiti emosiynol mabwysiadu, gan gynnwys poen bod yn rhan o "genhedlaeth goll" gydag anghenion heb eu diwallu a'r angen am gefnogaeth barhaus.

### Arferion mabwysiadu hanesyddol

Yn 2022, datgelodd adroddiad Pwyllgor Hawliau Dynol ar y Cyd Senedd y DU effaith ddinistriol mabwysiadu gorfodol rhwng 1949 a 1976. Ymatebodd y GMC gyda thosturi ac arweinyddiaeth, gan gefnogi ymddiheuriad cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2023, yn dilyn ymddiheuriad personol gan y Dirprwy Weinidog ar y pryd, Julie Morgan AS, mewn digwyddiad Y Sgwrs Fawr ar Fabwysiadu.

Gyda phartneriaid fel Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant ac Adoption UK, mae'r GMC wedi treialu Gwasanaeth Mynediad i Gofnodion cyntaf y DU, gan roi cyfle i'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan fabwysiadu hanesyddol cyn 1976 adennill eu straeon. Yn hollbwysig, cafodd y gwasanaeth hwn ei gyd-gynllunio gyda'r bobl a oroesodd y profiadau hynny.

## Grymuso lleisiau mewn mabwysiadu ar draws Cymru

Dros y degawd diwethaf, mae Cymru wedi trawsnewid sut mae plant a phobl ifanc wedi'u mabwysiadu a'r rhai sy'n mabwysiadu yn cael eu clywed a'u cefnogi. O'r cychwyn cyntaf, gwnaeth y GMC hi'n flaenoriaeth i wrando, gan lansio ymgynghoriadau â mabwysiadwyr a phobl ifanc wedi'u mabwysiadu i lunio profiad mabwysiadu mwy cynhwysol.

Yn 2016, ganwyd strategaeth ymgysylltu arloesol, a grëwyd ar y cyd ag ystod eang o leisiau: y rhai sy'n mabwysiadu, gweithwyr cymdeithasol, staff rhanbarthol, ac yn bwysicaf oll, pobl ifanc eu hunain, trwy'r fenter Siarad am Fabwysiadu.

Erbyn 2017, ehangodd y sylw i gynnwys rhieni sy'n mabwysiadu gyda lansiad Adopter Voice, platfform deinamig a ddatblygwyd gan Adoption UK (AUK) ar gyfer GMC. Trwy grwpiau cymorth, arolygon a digwyddiadau, cipiodd brofiadau bywyd go iawn a sbardunodd sgyrsiau ystyrlon, gan arwain at greu gwefan Lleisiau Mabwysiadu Cymru a'r Sgwrs Fawr ar Fabwysiadu blynyddol.

Pan gaeodd After Adoption yn 2019, camodd GMC ac AUK ymlaen, gan lansio Connect – gwasanaeth a gefnogir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc wedi'u mabwysiadu. Adeiladwyd hyn ar dair colofn bwerus:

- Grwpiau Connected: Mannau diogel a chefnogol i blant a phobl ifanc wedi'u mabwysiadu gwrdd a derbyn cefnogaeth
- Gwybodaeth Hygyrch: Cynnwys ar wefan Connect wedi'i ddylunio gan blant a phobl ifanc
- Llais Ieuenctid: Platfform strwythuredig i blant a phobl ifanc lunio polisi, gan arwain at lansiad Connect Voices yn 2021, Cyngor Ieuenctid mabwysiadu Cymru

Drwy gydol y cyfnod, mae'r GMC wedi parhau i fod yn ymrwymedig i wrando, gan ymgysylltu'n rheolaidd â defnyddwyr gwasanaethau mewn adolygiadau a datblygiadau newydd o fewn gwasanaethau, ac yn genedlaethol, gan sicrhau bod eu lleisiau'n parhau i lunio dyfodol mabwysiadu yng Nghymru.



# Creu sylfaen gadarn: llywodraethu, cyllid a gwelliant



## Llywodraethu

Mae strwythur cadarn yn hanfodol i bob gwasanaeth llwyddiannus ac mae'r GMC wedi treulio'r degawd diwethaf yn adeiladu strwythur sy'n ei alluogi, ac yn ddiweddarach Maethu Cymru, i weithredu'n effeithiol.

Yn wreiddiol, yn unol â'r sail gyfreithiol, roedd y GMC yn rheoli hyn drwy Grŵp Cynghori a Bwrdd Llywodraethu. Erbyn 2019, roedd y rhain wedi uno i mewn i un Bwrdd Llywodraethu Cyfunol symlach, wedi'i lunio gyda mewnbwn gan randdeiliaid a chyngor arbenigol gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC). Dilynwyd hyn yn agos gan Gytundeb Partneriaeth newydd, a lofnodwyd gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd hwn yn ymrwymo i ffordd o weithio, a nodweddir gan atebolrwydd a pherchnogaeth ar y cyd, integreiddio rhwng timau cenedlaethol a rhanbarthol, cydweithio a rhannu adnoddau'n ddoethach, a dull busnes i wneud y mwyaf o effaith y sector.

Ochr yn ochr â hyn, chwaraeodd y GMC rôl allweddol hefyd wrth gefnogi'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol (FfMC), rhan o ymgyrch Llywodraeth Cymru i wella canlyniadau i blant. Arweiniodd hyn at greu Maethu Cymru yn 2021 – rhwydwaith cenedlaethol o wasanaethau maethu awdurdodau lleol yn cydweithio, er gyda model gwahanol i'r GMC.

I ddod â'r cyfan at ei gilydd, cymeradwyodd Bwrdd Gweithredol CLILC ffurfio Pwyllgor ar y Cyd ym mis Hydref 2021, a lansiwyd yn swyddogol ddechrau 2024. Mae'r pwyllgor hwn, sy'n cynnwys Aelodau'r Cyngor, yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i:

- Cymeradwyo cyllidebau a rhaglenni gwaith
- Adolygu cynnydd ac adroddiadau blynyddol
- Goruchwylio'r cytundeb ar gyfer cefnogaeth yr awdurdod lletya i swyddfa'r Cyfarwyddwr

Erbyn 2022, roedd GMC wedi ehangu ei dîm canolog, gan gyfuno rhai rolau ar draws mabwysiadu a maethu, ac wedi ffurfioli ei gytundeb lletya â Chyngor Caerdydd, gan sicrhau sylfaen gref a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

## Ariannu dyfodol mabwysiadu yng Nghymru

Mae'r GMC wedi gweithio'n galed i adeiladu sylfaen ariannol gref, er bod mwy o waith i'w wneud yn y maes hwn.

Ers ei lansio yn 2014, mae'r GMC wedi cael ei ariannu drwy gyfran bwrpasol o'r Grant Cymorth Refeniw, gyda chymorth grant ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad blynyddol o £2.3 miliwn (ers 2019) sy'n galluogi newid sylweddol i ehangu gwasanaethau cymorth mabwysiadu ar draws awdurdodau lleol ac asiantaethau gwirfoddol. Yn 2022/23, sicrhaodd y GMC gyllid pellach i wireddu ei strategaeth *Mabwysiadu Cymru a Thu Hwnt* – gan godi ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy ymgyrchoedd beiddgar ar y teledu, y radio, a hyd yn oed bysiau a threnau. At ei gilydd, mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru mewn cymorth grant ar gyfer mabwysiadu dros y 10 mlynedd diwethaf, drwy'r GMC, wedi bod tua £16 miliwn, swm sylweddol sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr, er ei fod yn ansicr yn ei hanfod.

Mae cyfran sylweddol o'r gyllideb genedlaethol yn cael ei phasbortio i ranbarthau a phartneriaid trydydd sector (y VAAs): gwnaed 91% (tua £2.72m) ar gael i awdurdodau lleol a'r VAAs yn 2024/25, gan sicrhau bod cymorth yn cyrraedd y bobl a'r lleoedd sydd ei angen fwyaf.



Mae'r GMC hefyd wedi helpu partneriaid trydydd sector i ddatgloi £8 miliwn mewn cyllid ychwanegol, gan gynnwys £5 miliwn o'r Gronfa Loteri Fawr. Mae hyn wedi pweru gwasanaethau arloesol fel: PATHway (TESSA gynt), Mabwysiadu gyda'n Gilydd a Connect (ar gyfer plant a phobl ifanc).

Yn 2023, comisiynodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) adolygiad o fodel ariannu'r GMC a Maethu Cymru. Nododd fod cydlynu cenedlaethol yn darparu gwerth gwirioneddol drwy helpu awdurdodau lleol i wella canlyniadau i blant a denu mwy o adnoddau. Galwodd yr adolygiad hefyd am welededd cliriach o gostau yn y dyfodol a chynllunio ariannol tymor canolig cryfach.

Yn 2024, comisiynodd Bwrdd Llywodraethu'r GMC adolygiad o'r cyllid gweithredol sydd ar gael i'r rhanbarthau, y VAAs a'r gwasanaethau iechyd.

## Gyrru rhagoriaeth: sut mae GMC yn mesur ac yn gwella gwasanaethau mabwysiadu

Wrth wraidd GMC a'i lwyddiant mae ymrwymiad i ddysgu, gwella a chyflawni'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd ar draws Cymru.

I wneud i hynny ddigwydd, mae GMC wedi adeiladu sylfaen gref mewn perfformiad ac ymarfer. Mae'r cyfan yn dechrau gyda'r Fframwaith Mesur Perfformiad (PMF), a ddatblygwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru ac sydd bellach yn cael ei weithredu gan GMC. Mae'r fframwaith hwn yn rhoi darlun clir o sut mae gwasanaethau mabwysiadu yn perfformio, gan helpu gwasanaethau GMC i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig.

Ers 2018, mae GMC wedi partneru â Data Cymru i gasglu a dadansoddi ei ddata perfformiad, gan lywio adroddiadau chwarterol a blynyddol i fodloni gofynion statudol a rhoi cipolwg gwerthfawr ar wasanaethau i blant, mabwysiadwyr, a phawb yr effeithir arnynt gan fabwysiadu.

Fodd bynnag, mae'r dull yn ymwneud â mwy na data yn unig.


Er mwyn canolbwyntio ar safonau ymarfer a gwasanaeth, mae'r GMC wedi cyflwyno amrywiol Fframweithiau a Chanllawiau Arfer Da ac, yn 2023, lansiodd Bolisïau a Gweithdrefnau Mabwysiadu Cymru Gyfan – crynodeb unedig ar gyfer gweithwyr proffesiynol, sydd bellach ar gael yn hawdd trwy Ap y GMC.

Mae'r GMC hefyd yn gweithio'n agos gydag AFKA i gefnogi datblygu ymarfer arbenigol ac yn cydweithio'n rheolaidd â chyrff ymchwil i aros ar flaen y gad o ran gwybodaeth am fabwysiadu. Un enghraifft benodol yw Astudiaeth Carfan Mabwysiadu Cymru, dan arweiniad yr Athro Katherine Shelton ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r ymchwil arloesol hon yn olrhain datblygiad niwrowybyddol ac emosiynol carfan o blant a fabwysiadwyd o ofal yng Nghymru. Mae'n datgelu mewnwelediadau pwerus i effaith barhaol trawma cynnar ac yn helpu i lunio gwell cefnogaeth gartref ac yn yr ysgol.

## BETH MAE HYN HOLL YN EI OLYGU AR GYFER CYFLENWI GWASANAETHAU?

# 2015-2025

### Lleoliadau Mabwysiadu




Yn ystod y deng mlynedd diwethaf, mae nifer y plant sy'n cael eu hystyried i'w mabwysiadu, ac yna'n cael eu mabwysiadu, wedi gostwng. Yn gysylltiedig â newidiadau yn y ffordd y caiff ei ystyried o fewn y system gyfreithiol a gwelliannau mewn gwasanaethau sy'n cefnogi plant i aros o fewn eu teuluoedd neu gymunedau geni, mae Gorchmynion Lleoli wedi gostwng tua 20% a nifer y plant sy'n cael eu mabwysiadu gan draean.

### Gorchmynion Lleoli Cymru Gyfan

| | |
|---|---|
| 15/16 | 307 |
| 16/17 | 375 |
| 17/18 | 358 |
| 18/19 | 338 |
| 19/20 | 275 |

| | |
|---|---|
| 20/21 | 261 |
| 21/22 | 230 |
| 22/23 | 249 |
| 23/24 | 230 |
| 24/25 | 273 |


### Gorchmynion mabwysiadu a roddwyd Data Llywodraeth Cymru

| | |
|---|---|
| 14/15 | 385 |
| 15/16 | 341 |
| 16/17 | 314 |
| 17/18 | 305 |
| 18/19 | 310 |

| | |
|---|---|
| 19/20 | 300 |
| 20/21 | 270 |
| 21/22 | 285 |
| 22/23 | 250 |
| 23/24 | 255 |





**Cyfartaledd Cymru Gyfan, mewn misoedd, o CLA i PFA**




**Amser Cyfartalog Cymru Gyfan, mewn misoedd, o Orchymyn Lleoli i Blentyn Preifat**

Cynyddodd yr amser cyfartalog rhwng plentyn yn dod i ofal a chael ei leoli yn ei gartref mabwysiadu yn ystod COVID-19 ac mae'n parhau ar lefel ychydig yn uwch o tua 18 mis.

